**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Peredur Owen-Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

12 Ebrill 2023

Annwyl Peredur,

Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2023-24: Tystiolaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 8 Mawrth, yn gofyn am farn y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar welliannau posibl i'r ddogfennaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o graffu ar gyllidebau drafft yn y dyfodol. Trafododd y Pwyllgor y mater hwn yn ei gyfarfod ar 29 Mawrth. Rwyf wedi nodi isod y pwyntiau allweddol yr hoffem dynnu eich sylw atynt.

Nid oedd y dystiolaeth ysgrifenedig a gawsom gan y Gweinidog i lywio ein gwaith craffu ar gyllideb ddrafft 2023-24 mor gynhwysfawr ag y bu mewn blynyddoedd blaenorol. Er enghraifft, nid oedd yn cynnwys tabl Llinellau Gwariant yn y Gyllideb na naratif o'r Llinellau Gwariant hyn fel y gwnaethom ofyn amdanynt. Er y darparwyd y wybodaeth hon yn ddiweddarach, byddem wedi disgwyl iddi gael ei chynnwys o'r cychwyn cyntaf, o ystyried ei bod yn hanfodol i'n dealltwriaeth o benderfyniadau gwariant Llywodraeth Cymru.

Mae'r Pwyllgor yn awyddus i Lywodraeth Cymru gynnwys asesiad o effaith carbon y gyllideb ddrafft mewn dogfennaeth yn y dyfodol. Er i ni gael ein hysbysu gan y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn gwneud cynnydd o ran asesu effeithiau carbon ei phenderfyniadau gwariant, ni chafodd hyn ei adlewyrchu yn nogfennaeth cyllideb ddrafft 2023-24. Nid oedd unrhyw esboniad o sut yr aseswyd effeithiau carbon ac, yn bwysicach, nid oedd gwybodaeth am ganfyddiadau'r asesiadau hyn.

Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid, mae cyn-Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys dadansoddiad o effaith carbon cyllideb ddrafft 2023-24. Rydym yn awgrymu y gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried a ellid mabwysiadu dull tebyg ar gyfer cyllidebau drafft yn y dyfodol at ddiben darparu gwybodaeth lefel uchel i'r Senedd i gefnogi gwaith craffu.

Yn fwy cyffredinol, un o wendidau allweddol proses y gyllideb ddrafft yw'r amser sydd ar gael ar gyfer gwaith craffu. Roedd cyllideb ddrafft 2023-24 yn destun amserlen graffu fyrrach, a ddisgynnodd dros

gyfnod y Nadolig. Roedd hyn yn golygu mai cyfyngedig oedd yr amser oedd ar gael ar gyfer dadansoddi cyn sesiwn graffu'r Gweinidog, a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2023, ac adrodd ar ein canfyddiadau cyn y dyddiad cau y cytunwyd arno. Wrth gwrs, rydym yn ymwybodol bod ein profiad o weithio'n unol ag amserlen graffu fyrrach yn rhywbeth sydd gennym yn gyffredin â phwyllgorau eraill.

Yn olaf, daeth ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar gyllideb ddrafft 2023-24 i law ar ôl i fusnes ddod i ben y diwrnod cyn y ddadl ar y gyllideb derfynol. Mae hyn yn destun gofid mawr gan ei fod yn golygu mai prin oedd yr amser i'r Aelodau ystyried yr ymateb cyn y ddadl. Rydym yn pryderu bod hyn yn tanseilio'r broses graffu. Serch hynny, rydym yn falch o ddweud fod ymateb y Gweinidog yn un cynhwysfawr ar y cyfan.

Gobeithio y bydd yr uchod yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.